# CYNHADLEDD 2023

Cyflwr Tai Pobl Hŷn yng Nghymru

Care & Repair
Gofal a Thrwsio

## Rhaglen y Gynhadledd




WALES&WEST
UTILITIES

#CRConf23

# CYNHADLEDD 2023

| | |
|---|---|
| 09.00 | **Cofrestru, Rhwydweithio ac Arddangosfa** |
| 09.30 | **Croeso i'r Gynhadledd**<br>Gwynne Jones, Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych<br>Nigel Winnan, Wales & West Utilities |
| 09.45 | **Prif Anerchiad 1**<br>Julie James AC, Gweinidog Newid Hinsawdd |
| 10.05 | **Trafodaeth Panel: Yr Hawl i Dai Digonol ar gyfer Pobl Hŷn**<br>• Matthew Dicks, CIH Cymru<br>• Alicja Zalesinska, Tai Pawb<br>• Ruth Power, Shelter Cymru |
| 11.00 | **EGWYL** |
| 11.30 | **Prif Anerchiad 2**<br>Heléna Herklots, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| 12.00 | **Gweithdai (manylion llawn ar y dudalen nesaf)**<br>• Heriau a Datrysiadau yn y Diwydiant Adeiladu<br>• Y Berthynas Rhwng Tai a Gofal Cymdeithasol<br>• Partneriaeth Arfer Da Therapi Galwedigaethol a Gofal a Thrwsio<br>• Ymdopi'n Well – Gwneud i Dechnoleg Weithio i Bobl Hŷn |
| 13.00 | **CINIO** |
| 14.00 | **Gweithdai (manylion llawn ar y dudalen nesaf)**<br>• Tlodi tanwydd a rhaglen newydd Cartrefi Twym<br>• Addasiadau Tai – Heriau'r Dyfodol<br>• Cynllun Gweithredu Gwrthhiliaeth yng Nghymru<br>• Cynllun Eiddilwch Cenedlaethol |
| 15.00 | **EGWYL** |
| 15.15 | **Drama Amrywiaeth Dementia**<br>Ian Baxter and Libby Pearson, Purple List Theatre |
| 16.15 | **Adolygiad o'r Flwyddyn** |
| 16.30 | **Sylwadau Cloi** |

WALES&WEST UTILITIES

# CYNHADLEDD 2023

## 12:00 Gweithdai

<u>1. Heriau a Datrysiadau yn y Diwydiant Adeiladu</u>

- **David Kirby, Swyddog Polisi a Materion Cyhoeddus, CIOB (Sefydliad Siartredig Adeiladu)**

Mae heriau niferus yn wynebu'r sector adeiladu. Mae'r bwlch cynyddol mewn sgiliau yn golygu nad oes digon o bobl yn ymuno â'r diwydiant ac, yn ei dro, ni all y sector ateb y galw am atgyweirio, cynnal a chadw a gwella. Mae cyrff llai ac elusennau hefyd yn wynebu pwysau ychwanegol wrth iddynt ei chael yn anodd cynnig cyfleoedd a buddion tebyg i'r rhai a gynigir gan gontractwyr mwy Haen Un.

<u>2. Y Berthynas Rhwng Tai a Gofal Cymdeithasol</u>

- **Nicola Brimblecombe, Ysgol Economeg a Gwyddor Wleidyddol Llundain**
- **Madeleine Stevens, Ysgol Economeg a Gwyddor Wleidyddol Llundain**

Trafodaeth o ganfyddiadau ymchwil am sut mae nodweddion a chyflwr tai pobl yn gysylltiedig â'u hanghenion gofal a'r gofal a gânt gan awdurdodau lleol, yn breifat neu gan berthnasau a chyfeillion, a beth fedrir ei wneud i wella'r sefyllfa.

<u>3. Canllaw Arfer Da Therapi Galwedigaethol ar gyfer Gofal a Thrwsio</u>

- **Laura Thompson, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe**
- **Sandra Davies, Gofal a Thrwsio Bae Gorllewinol**
- **Carol Williams, Gofal a Thrwsio Bae Gorllewinol**

Ymchwiliad o gydweithio rhwng Gofal a Thrwsio a phartneriaid iechyd i wella cyfathrebu a mynediad i wasanaethau.

<u>4. Ymdopi'n Well – Gwneud i Dechnoleg Weithio ar gyfer Pobl Hŷn</u>

- **Hannah Rowlett, RNIB Cymru**
- **Helen Davies, Gofal a Thrwsio Sir Gaerfyrddin**
- **Theresa Davies, Gofal a Thrwsio Blaenau Gwent a Chaerffili**

Gwybodaeth ar sut y mae pobl sy'n colli eu golwg yn defnyddio technoleg, yr apiau sydd ar gael i gynyddu annibyniaeth a'n partneriaeth gyda thìm Ymdopi'n Well Gofal a Thrwsio.

#CRConf23

WALES&WEST UTILITIES

# CYNHADLEDD 2023

## 14:00 Gweithdai

**1. Tlodi Tanwydd a rhaglen newydd Cartrefi Cynnes**

- **Ben Saltmarsh, Pennaeth NEA yng Nghymru**
- **Haf Elgar, Cyfarwyddwr Cyfeillion y Ddaear Cymru**

Bydd y sesiwn yn trafod pwysigrwydd gwaith Gofal a Thrwsio ar dlodi tanwydd ac y dylai pobl hŷn sy'n berchen eu cartrefi fod yn rhan gyfartal o'r agendâu datgarboneiddio tai (a newid hinsawdd).

**2. Addasiadau Tai – Heriau'r Dyfodol**

- **Dan Jones, Llywodraeth Cymru**

Cyfle i ystyried lle'r ydym arni yn awr a ble nesaf, yng nghyd-destun poblogaeth sy'n heneiddio a newidiadau cymdeithasol ac economaidd y tair blynedd ddiwethaf.

**3. Cynllun Gweithredu Gwrth Hiliaeth yng Nghymru**

- **Simon Lu, Rheolwr Gwrthhiliaeth Tai Pawb**

Cyflwyniad byr i gynllun gweithredu Gwrth Hiliaeth Cymru a'r ffordd orau i weithredu'r cynllun o fewn y sector tai.

**4. Y Cynllun Cenedlethol ar Eiddilwch**

- **Tracey Williams, Llywodraeth Cymru**
- **Rhian Matthews, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**

Bydd y sesiwn yn rhoi cyfle i ddysgu mwy am eiddilwch, beth ydyw a beth nad ydyw. Bydd hyn yn rhoi cyfle i drafod datblygiad Datganiad Ansawdd Integredig ar gyfer Pobl Hŷn a'r rhai sy'n byw gydag eiddilwch, sut mae hyn yn alinio gyda pholisi cenedlaethol arall a gwaith rhaglenni cenedlaethol, a thrafod cyfraniad hollbwysig y trydydd sector yng nghyswllt y grŵp poblogaeth yma.

#CRConf23

WALES&WEST UTILITIES

# CYNHADLEDD 2023

## Prif Siaradwyr



### Gwynne Jones

Bu Gwynne yn gweithio yn y sector tai cymdeithasol am 33 mlynedd tan fis Gorffennaf 2020. Mae'n falch i fod yn Gadeirydd Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych ac yn Gynrychiolydd Asiantaethau ar Fwrdd Care & Repair Cymru. Bu ganddo gysylltiadau gyda'r mudiad Gofal a Thrwsio yng Nghymru ers 1996. Mae hefyd yn ymddiriedolydd elusen Elusendai Rhuthun. Ar ôl gweithio i awdurdodau lleol a chymdeithasau tai yng Nghymru a Lloegr, ei swydd ddiwethaf oedd gyda Cartrefi Conwy fel Rheolwr Gyfarwyddwr lle'r oedd ganddo gyfrifoldeb strategol am wasanaethau tenantiaid ac eiddo. Mae'n gymrawd o'r Sefydliad Tai Siartredig.



### Nigel Winnan

Nigel yw Rheolwr Goblygiadau Cwsmeriaid a Chymdeithasol Wales & West Utilities, sy'n gyfrifol am holl wasanaethau cwsmeriaid. Mae Wales & West Utilities yn berchen ac yn gweithredu'r rhwydwaith nwy ar draws Cymru a de orllewin Lloegr, gan gyflenwi 2.4m o gartrefi a busnesau. Yn ogystal â dynodi a gofalu am gwsmeriaid mewn argyfwng, gwaith wedii gynllunio a gwaith cysylltu, mae nifer o bartneriaethau tebyg i'r un gyda Care & Repair Cymru yn ei gwneud yn bosibl rhoi cefnogaeth ychwanegol i gwsmeriaid blaenoriaeth.



### Heléna Herklots CBE

Heléna yw Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru – swydd statudol annibynnol a sefydlwyd mewn deddf i ddiogelu a hyrwyddo hawliau pobl hŷn. Dechreuodd yn y swydd yn 2018 ar ôl 30 mlynedd yn gweithio ar faterion heneiddio a phobl hŷn. Dechreuodd ei gyrfa yn gweithio'n uniongyrchol gyda phobl hŷn a'u teuluoedd mewn canolfannau dydd a chartrefi gofal ac mae wedi dylanwadu ar bolisi cyhoeddus, ymgyrchu dros newid a datblygu a darparu gwasanaethau cymorth i bobl hŷn.



### Julie James AS

Cafodd Julie James ei geni yn Abertawe ond treuliodd lawer o'i hieuenctid yn byw o amgylch y byd gyda'i theulu. Roedd Julie yn gyfreithwraig amgylcheddol a chyfansoddiadol blaenllaw cyn iddi gael ei hethol yn Aelod o'r Senedd dros Orllewin Abertawe. Cyn hynny, bu'n brif weithredwr cynorthwyol Cyngor Abertawe. Penodwyd Julie yn Weinidog Newid Hinsawdd ar 13 Mai 2021.

#CRConf23

WALES&WEST UTILITIES

# CYNHADLEDD 2023

## Panel Trafod



### Matt Dicks

Matt yw cyfarwyddwr cenedlaethol CHI Cymru ac mae'n arwain y tîm yng Nghymru. Symudodd Matt i'w swydd bresennol gyda llawer o wybodaeth am dirlun polisi Cymru yn dilyn 17 mlynedd yn gweithio fel uwch gyfathrebydd wrth galon bywyd dinesig a gwleidyddol Cymru. Ar ôl saith mlynedd fel Gohebydd Gwleidyddol ar gyfer ITV Cymru ymunodd â Chynulliad Cenedlaethol Cymru (bellach Senedd Cymru) fel pennaeth newyddion.



### Alicja Zalesinska

Alicia yw Prif Weithredwr Tai Pawb, sefydliad sy'n hyrwyddo cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol mewn tai yng Nghymru. Mae ei swyddi blaenorol yn cynnwys bod yn gyfarwyddwr cynorthwyol Race Equality First ac ymchwilydd yn y sector ariannol. Bu Alicja yn gweithio yn y trydydd sector am 16 mlynedd. Wedi ei geni a'i haddysgu yng Ngwlad Pŵyl, ymgartrefodd yng Nghymru 19 mlynedd yn ôl.



### Ruth Power

Ruth yw Prif Swyddog Gweithredol Shelter Cymru. Mae wedi gweithredu ymrwymiad i gyfiawnder cymdeithasol mewn gwahanol swyddi darparu gwasanaeth, polisi ac arweinyddiaeth yn y trydydd sector a'r sectorau statudol. Dechreuodd mewn gwasanaethau tai a digartrefedd awdurdodau lleol a chymdeithasau tai yng Nghaerdydd a Llundain, ac yna sefydlodd a rhedeg lloches menywod ac uned ar gyfer mamau a babanod yn eu harddegau i gymdeithas tai oedd yn cael ei harwain gan bobl ddu. Mae'n cadeirio Cartrefi i Bawb Cymru ac yn aelod o Fwrdd Ymgynghorol Cenedlaethol Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd.

## Drama Amrywiaeth Dementia



### Ian Baxton and Libby Pearson - Purple List Theatre

Cafodd "The Purple List" – menter dementia hoyw, ei greu gan y ddramodydd Libby Parson a'r actor Ian Baxter yn 2017 fel darn o theatr difyr, y gobeithid y gellid hefyd ei ddefnyddio fel dull deinamig a diddorol ar gyfer hyfforddiant. Ychydig a wyddent bryd hynny am effaith pellgyrhaeddol eu gwaith. Ymysg eraill, maent yn gweithio gyda'r GIG, y Comisiwn Ansawdd Gofal, Skills for Care, cymdeithasau tai, mudiadau dementia, mudiadau LGBTQ+ a phrifysgolion.

#CRConf23

WALES&WEST UTILITIES

## 12:00 Gweithdai Siaradwyr

**David Kirby**
David Kirby yw Swyddog Polisi a Materion Cyhoeddus Cymru y Sefydliad Siartredig Adeiladu (CIOB). Mae'n arwain gwaith y sefydliad gyda gwneuthurwyr polisi a rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru, yn cynnwys ar Ddeddf newydd Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru). Mae David hefyd yn gyfrifol am gynnal ymchwil sy'n helpu'r CIOB i ddeall y materion polisi ar draws y sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig i gryfhau gwybodaeth y sefydliad yn y meysydd hyn.

**Theresa Davies**
Am y 7 mlynedd ddiwethaf rwyf wedi bod yn Weithiwr Achos Ymdopi'n Well i Gofal a Thrwsio Blaenau Gwent a Chaerffili. Rwyf wedi gweithio gyda Gofal a Thrwsio am 18 mlynedd.

**Hannah Rowlatt**
Mae Tîm Technoleg ar gyfer Bywyd RNIB yn rhoi gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth am sut y gall pobl gyda cholled golwg ymuno â'r byd digidol a'i fwynhau.

**Helen Davies**
Fi yw Gweithiwr Achos Ymdopi'n Well' ar gyfer Gofal a Thrwsio Sir Gaerfyrddin, swydd y bûm ynddi am bron 6 mlynedd. Rwy'n cynnig cyngor a chefnogaeth ymarferol i bobl dros 50 oed gyda namau synhwyraidd a gwybyddol i fyw mor annibynnol ag sydd modd mewn amgylchedd cartref diogel.

**Nicola Brimblecombe**
Mae Nicola Brimblecombe yn Gymrawd Ymchwil Athrawol Cynorthwyol yn y Ganolfan Polisi Gofal a Gwerthuso, Ysgol Economeg a Gwyddor Wleidyddol Llundain (LSE). Mae'n ymchwilydd gofal cymdeithasol dulliau cymysg ym meysydd gofal di-dâl, tai a gofal, ac angen ac anghydraddoldeb na chaiff eu diwallu mewn gofal. Mae wedi cyhoeddi'n eang ar y pynciau hyn. Mae gan ei holl brosiectau ffocws ar roi canfyddiadau ar waith ac ymgyfraniad gofalwyr, defnyddwyr gwasanaeth ac ymarferwyr.

**Sandra Davies**
Sandra, Uwch Weithiwr Achos Gofal a Thrwsio Bae Gorllewinol. Cafodd ei chyflogi yn y sefydliad am dros 12 mlynedd ac mae'n mwynhau cefnogi'r tîm a chwrdd â chleientiaid. Cafodd y tîm ei adeiladu dros y 12 mlynedd ddiwethaf i ateb heriau newydd yn gyson ac maent yn cael bodlonrwydd mawr mewn sicrhau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer cleientiaid.

**Laura Thompson**
Therapydd Galwedigaethol Arweiniol Ardal, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

**Carol Williams**
Carol yw Gweithiwr Achos Ysbyty i Gartref Iach Gofal a Thrwsio Bae Gorllewinol. Bu'n gweithio i'r sefydliad am dros 20 mlynedd ac mae'n defnyddio ei phrofiadau i gefnogi cydweithwyr, partneriaid a chleientiaid.

# CYNHADLEDD 2023

## 14:00 Gweithdai Siaradwyr

**Ben Saltmarsh**
Ben yw Pennaeth Cymru ar gyfer National Energy Action (NEA) – elusen genedlaethol ym maes tlodi tanwydd. Mae'n arwain blaenoriaethau eiriolaeth ac ymgysylltu NEA, gan weithio gyda phartneriaid allweddol a rhanddeiliaid i weld y gall pawb fforddio cadw'n gynnes a diogel yn eu cartrefi. Mae'n aelod o wahanol grwpiau ymgynghori, yn gadeirydd Cynghrair Tlodi Tanwydd Cymru, yn darparu'r ysgrifenyddiaeth ar gyfer grŵp trawsbleidiol Senedd Cymru ar Dlodi Tanwydd ac Effeithiolrwydd Ynni ac yn arwain Fforymau Tlodi Tanwydd Cymru.

**Dan Jones**
Mae Daniel yn Bennaeth Iechyd a Thai gyda Llywodraeth Cymru, gyda chyfrifoldeb am y Gronfa Tai gyda Gofal a grantiau Byw Annibynnol i Gofal a Thrwsio, awdurdodau lleol a chymdeithasau tai.

**Tracey Williams**
Mae gennyf 37 mlynedd o brofiad mewn gwasanaeth cyhoeddus fel nyrs, bydwraig a gwas sifil a 15 mlynedd o brofiad fel gofalwr. Mae fy swyddi blaenorol yn cynnwys gwaith clinigol rheng-flaen, gweithredu modelau newydd o ofal, gwella canlyniadau mewn risgiau poblogaeth risg uchel, arwain polisi ar blant dan oedran ysgol, nyrsio ysgol, pobl hŷn, y celfyddydau mewn iechyd, iechyd rhyngwladol a gofal heb ei drefnu a datblygu deddfwriaeth proffil uchel ar reoli tybaco.

**Haf Elgar**
Haf yw Cyfarwyddwr Cyfeillion y Ddaear Cymru. Yn flaenorol bu'n Ymgyrchydd y sefydliad yng Nghymru a bu'n gweithio gyda Cyfeillion y Ddaear ers 2008. Mewn blynyddoedd diweddar mae wedi arwain tîm a ymgyrchodd yn llwyddiannus am Gymru di-ffosil a chefnogodd rwydwaith cynyddol o grwpiau lleol ar draws Cymru. Gweithiodd mewn cynghrair i atal ffordd liniaru'r M4, dylanwadu ar ddeddfwriaeth hinsawdd a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac mae'n ymgyrchu ar nifer o faterion cyfiawnder hinsawdd yn cynnwys llygredd aer a thlodi tanwydd. Mae Haf hefyd yn Is-gadeirydd Aer Iach Cymru, ac yn aelod o grwpiau llywio Climate Cymru a'r Gynghrair Tlodi Tanwydd.

**Simon Lu**
Simon Lu yw Rheolwr Gwrth-hiliaeth Tai Pawb, corff sy'n hyrwyddo cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol mewn tai yng Nghymru. Bu Simon yn gweithio fel Cydlynydd Cenedlaethol Menywod a Genethod yn Golff Cymru, gan arwain twf a datblygiad y gêm benywod ar draws Cymru. Bu gan Simon swyddi mewn gwahanol nodweddion cydraddoldeb yn cynnwys amrywiaeth ethnig, menywod a merched a thlodi.

#CRConf23

WALES&WEST UTILITIES

# CYNHADLEDD 2023

## Arddangoswyr

### Wales & West Utilities

Yn Wales & West Utilities mae ein cydweithwyr ymroddedig yn gwneud eu gorau i gadw ein 7.5 miliwn o gwsmeriaid yn ddiogel a chynnes. Ymatebwn i argyfyngau nwy, gan fuddsoddi £2m bob wythnos ar draws ein rhwydwaith a chysylltu cartrefi a busnesau newydd ac uwchraddio pibelli nwy metel i rai newydd plastig fel y bydd y cymunedau a wasanaethwn yn derbyn cyflenwad nwy diogel a dibynadwy am genedlaethau i ddod.

### AKW Medi-Care Ltd

Mae AKW, prif ddarparydd Prydain ar gyfer ystafelloedd ymolchi a cheginau hygyrch ar gyfer pobl gyda llai o allu symud, sy'n galluogi pobl i fyw'n fwy annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Maent yn awr yn cynnig hyd yn oed fwy o ddewis i greu ystafelloedd ymolchi hardd, cyfoes ac ymarferol gyda'n portffolio cynnyrch a estynnwyd yn ddiweddar ar ôl i'r cwmni brynu Contour Showers Limited.

### Closomat

Credwn fod gan bawb hawl i fyw eu bywyd gorau, pa bynnag heriau sy'n eu hwynebu yn eu hanghenion toiledu personol. Sylweddolwn rôl bwysig ein cynnyrch a'n gwasanaethau ym mywydau ein cwsmeriaid ac mae hyn yn ein hybu wrth barhau i ddarparu'r cynnyrch o'r ansawdd uchaf a'r gofal gorau posibl i gwsmeriaid.

### Easiaccess

Easiaccess yw prif gwmni mynediad modiwlaidd Prydain, gan weithgynhyrchu, cyflenwi a gosod ym mhob rhan o'r wlad. Rydym yn ymfalchïo mewn deall anghenon ein cwsmeriaid, ac wedi gweithio yn y maes arbenigol hwn am dros 20 mlynedd. Mae gan ein systemau modiwlaidd metel ddyluniad y gellir ei addasu'n llawn, gan roi hyblygrwydd i weddu unrhyw adeilad a gofod.

#CRConf23

# CYNHADLEDD 2023

## Arddangoswyr

### Educ8

Mae gan Grŵp Educ8 hanes diguro o ddarparu rhaglenni hyfforddiant galwedigaethol ansawdd uchel, yn cynnwys Kick-start, ReAct ar gyfer rhai y cafodd eu swyddi eu dileu, cyfleoedd hyfforddiant a phrentisiaethau, ar gyfer cyflogwyr o bob maint o sefydliadau micro hyd at fusnesau bach a chanolig a chorfforaethau byd-eang.

### The Key Safe Compannny

Ni yw'r The Key Safe Company – cartref y seffau allweddol gwreiddiol a ffafrir gan yr heddlu a seff allwedd fecanyddol fwyaf diogel Prydain, ark Tamo™. Fel darparwyr datrysiadau mynediad ansawdd uchel sy'n ategu a chaniatáu cyflenwi technoleg gofal estynedig heddiw, rydym yn rhoi sicrwydd a thawelwch meddwl – gan alluogi bywydau gwell drwy rymuso pobl i aros mor annibynnol ag sydd modd.

### Nest

Mae cynllun Nyth yn cynnig ystod o gyngor di-duedd yn rhad ac am ddim ac, os ydych yn gymwys, pecyn o welliannau effeithiolrwydd ynni cartref tebyg i foeler newydd, gwres canolog, insiwleiddiad neu baneli solar. Gall hyn ostwng eich biliau ynni a bod er budd eich iechyd a'ch llesiant.

### P4B Law Ltd

Mae P4B Law yn gwmni sy'n arbenigo mewn Cyfraith Cyflogaeth ac Ymarfer Adnoddau Dynol gan ddarparu cymorth am ffi misol penodol, gwaith prosiect unigol ac amddiffyn mewn tribiwnlysoedd cyflogaeth. Cawn ein cydnabod fel arbenigwyr blaenllaw yn ein maes. Wedi'n ffurfio yn 2006, mae ein pencadlys yn Ne Cymru ac mae nifer o asiantaethau Gofal a Thrwsio ymysg ein cleientiaid.

#CRConf23

# CYNHADLEDD 2023

## Arddangoswyr

**RNIB**

Mae Visibly Better yn darparu'r sgiliau a gwybodaeth i ddarparwyr tai cymdeithasol a staff cartrefi gofal i ddiwallu anghenion unigol nifer cynyddol o breswylwyr sy'n byw gyda cholli golwg. Mae prosiect Vision Friends yn rhoi'r sgiliau a gwybodaeth i staff i adnabod, deall a chefnogi pobl hŷn sy'n byw gyda cholli golwg. Mae eu hyfforddiant yn rhad ac am ddim tan fis Mawrth 2025.

**Sarabec**

Mae gan Sarabec dros 40 mlynedd o brofiad o weithio gyda phobl sydd â nam ar eu clyw, ac mae'n darparu detholiad eang o gynnyrch i helpu eu cadw'n ddiogel ac annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Maent yn cynnwys gwrandawyr teledu, ffonau gydag uwchseinydd, clychau drws uchel iawn, systemau hysbysu am larymau mwg, mynediad drws a ffonau, clociau larwm a monitorau babanod.

**Solon**

Caiff Solon ei gydnabod fel prif gyflenwr Prydain ar gyfer cynnyrch ansawdd uchel atal troseddu a diogelwch cymunedol. Mae gennym ddetholiad diguro o gynnyrch arloesol a phrofiad helaeth o gynorthwyo gydag ymgyrchoedd a chynlluniau a yrrir gan dargedau. Rydym yn cyflenwi ystod eang o gynnyrch byw â chymorth ansawdd uchel, sy'n cynnwys bracedi canllawiau, seffau allwedd a gwahanol eitemau mân addasiadau eraill.

**South Wales Fire and Rescue Service**

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru eisiau i breswylwyr deimlo'n ddiogel yn eu cartrefi. Mae hyn yn cynnwys mwy na'r adeilad yr ydych yn byw ynddo. Rydym yn cymryd dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i sicrhau eich bod mor ddiogel ag y gallwch fod yn eich cartref eich hun. Yn ystod yr ymweliad gallwn edrych ar y cartref, yr unigolyn a'u hymddygiad.

#CRConf23

# CYNHADLEDD 2023

## Arddangoswyr

**Stroke Association**
Gwybodaeth a chyngor yn dilyn strôc. Mae gennym hefyd grwpiau a chlybiau yn ogystal â gweithgareddau ar draws Cymru. Fel sefydliad rydym yn ymgyrchu dros well gwasanaethau strôc, cyllido prosiectau ymchwil ac mae gennym nifer o gyfleoedd i wirfoddolwyr.

**Tai Pawb**
Mae Tai Pawb yn gweithio i hybu cydraddoldeb mewn tai yng Nghymru. Dychmygwn Gymru lle mae gan bawb hawl i gartref da. Lluniwn y newid drwy ddylanwadu ar wneuthurwyr penderfyniadau ar y lefel uchaf. Gwnawn y newid drwy gefnogi ein haelodau i hyrwyddo cydraddoldeb ar lawr gwlad. Byddwn y newid drwy gyflawni yn ein sefydliad.

**Tunstall Healthcare**
Bu Tunstall yn flaen y gad mewn arloesedd technoleg ar gyfer iechyd, tai a gofal cymdeithasol am dros 65 mlynedd, gan dyfu i ddod yn wneuthurydd Prydeinig gyda phresenoldeb byd-eang.Mae ei feddalwedd, caledwedd a gwasanaethau blaengar yn galluogi darparwyr i ddarparu gofal integredig, effeithiol ac yn canoli ar y person yn y gymuned, a grymuso pobl i fyw'n fwy annibynnol a gyda gwell ansawdd bywyd.

#CRConf23